CYNGOR BRO LLANLLWNI
Adroddiad cyfarfod 13 Tachwedd 2023

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni. Roedd y Clerc wedi rhoi copi o'r Agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynnwyd llongyfarchiadau i Dewi ac Eleri Thomas ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Ni bu datblygiadau i'w hadrodd ers y cyfarfod diwethaf.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiad o gyfarfod mis Medi 2023 wedi ei osod ar y wefan.

CLONC CLECS
Roedd Adroddiad o gyfarfod mis Medi wedi ei anfon.

DIFFIBRILYDDION
Roedd amryw o'r anawsterau a oedd wedi codi ynglŷn â'r offer ystod y misoedd diwethaf wedi'u datrys. Byddai hyfforddiant yn cael ei drefnu yng Nghapel Nonni unwaith y byddai'r diffibrilydd yno yn gweithio.

HEWL FFYNNON-DDRAIN – GWARCWM
Mae angen ailedrych ar y safle gan bod y tarmac wedi torri a thyllau sylweddol yn yr hewl unwaith eto. Roedd y Clerc wedi derbyn ymateb gan swyddog o'r Cyngor Sir yn nodi y byddai yn delio â'r mater pe byddai'n gweld bod angen. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn danfon ebost ato i dderbyn manylion pellach.

<u>SBWRIEL</u>
Roedd y Clerc wedi danfon ebost i gael gwared o'r biniau yng nghilfan Cwmceiliog ond ni fu datblygiad pellach. Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnahad ar ebost gan swyddog y byddent yn delio â'r mater hwn petai angen.

PEN-RHIW
Twll sylweddol y dal yn yr hewl ac yn peri anhawster.

BANC LLOYDS
Roedd y sefyllfa anfoddhaol a'r trafod anfoddhaol yn parhau.

<u>MANTOLEN</u>
Cyflwynodd y Clerc fantolen o dderbyniadau a thaliadau am y cyfnod 12/09/2023 – 13/11/2023.

<u>ARCHWILIO CYMRU</u>
Cafwyd gwybodaeth gan y Clerc bod cyfrifon 01 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023 wedi eu harchwilio ac wedi eu danfon i Archwilio Cymru.

GOHEBIAETH A GWYBODAETH

Roedd amryw daflenni wedi'u derbyn gan Un Llais Cymru, Mynyddoedd Cambrian a Chyngor Sir Caerfyrddin.

PENDERFYNWYD CEFNOGI

Ysgol Eglwys Llanllwni; Ambiwlans Awyr Cymru; Urdd Gobaith Cymru.
Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 13 Tachwedd 2023 am 8yh.

Wrth gau'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 15 Ionawr 2024 am 8yh.